Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 431

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** DPP2524 Gwasanaethau Achub Cerbydau

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Bydd angen i'r contract cyfredol gael ei adnewyddu ar 1af Ebrill 2026. Mae'r contract yn ymarfer cydweithredol rhwng Dyfed Powys, De Cymru a Gwent yn unol â'r cytundeb cydweithredol tri llu ar gyfer yr Uned Gwasanaethau Achub Cerbydau.

Amcan yr Uned Gwasanaethau Achub Cerbydau yw sicrhau bod y cynllun Gwasanaethau Achub Cerbydau yn cael ei weinyddu'n gydweithredol ar ran pob Gwasanaeth Heddlu er mwyn gwella rhyngweithrediad a chynaliadwyedd y gwasanaeth ar draws ardaloedd de Cymru.

**Argymhelliad:**
Yn dilyn cwblhau'r ymarfer tendro yr argymhelliad yw dyfarnu'r contract i FMG Support (RRRM) Cyfyngedig. Bydd y contract yn gychwynnol am gyfnod o 3 blynedd, gyda'r opsiwn o ymestyn am gyfnod pellach o 2 flynedd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 15/12/2025**